

## Bywydeg a rheolaeth cynrhon lledr

### Cefndir

Daw Cynrhon Lledr o larfau'r pryf teiliwr (*Tipula* spp.). Ceir hyd i'r poblogaethau mwyaf ar dir glas a gall niferoedd mewn caeau lle y ceir pla gyrraedd 0.6 miliwn o gynrhon/ha. Y boblogaeth drothwy ar gyfer cnydau maes yw 0.25 miliwn. Gall cnydau bresych, courgettes a gwreiddlysiau sy'n dilyn gwair ddioddef y difrod mwyaf. Fel arfer, gwelir y difrod yn y gwanwyn gyda phlanhigion ifainc neu eginblanhigion yn ei chael hi waethaf.

### Natur y Difrod

Fel arfer, y planhigion yn gwywo, yw'r arwydd cyntaf o ymosodiad gan gynrhon lledr; maent yn bwydo ychydig islaw wyneb y pridd gan ddinistrio'r gwreiddiau a choesynnau'r planhigion o dan y ddaear. Pan fydd hi'n gynnes ac yn llaith yn y nos, gall y cynrhon hefyd fwydo ar yr wyneb, gan dorri'r planhigion ar lefel wyneb y pridd, neu wneud tyllau carpiog yn y dail. Gall y difrod ddigwydd ar ddiwedd yr hydref neu yn ystod cyfnodau mwyn yn y gaeaf, ond bydd y rhan fwyaf o'r difrod yn digwydd ym mis Ebrill/Mai pan fydd y cynrhon lledr yn fawr ac yn lleibio bwyta.

### Gelynyon Naturiol

Y Ddrudwen a'r Ydfran yw'r brif rywogaeth adar sy'n bwydo ar gynrhon lledr. Mae'n anarferol i firsau a pharasitiaid gael fawr o effaith ar y niferoedd mewn poblogaeth.



## Cylch Bywyd

Mae larfau cynrhon lledr yn llwyd-ddu neu'n frown, yn ddigoes a heb ben ar wahân. Fel arfer, maent yn feddal ac yn dew, ond yn ddigon gwydn yw eu croen.

Rhai mawr yw oedolion pryfed teiliwr a chanddynt gyrff hir, tenau, coesau afrosgo ac esgyll culion. Byddant yn dod i'r fei ar ddiwedd mis Awst ac yn gynnar ym mis Medi, toc ar ôl hynny, bydd yr wyau'n cael eu dodwy yn y pridd. Gall benyw unigol ddodwy cymaint â 300 o wyau hirgrwn, duon.

Bydd y larfau'n deor ymhen tua phythefnos. Ar yr adeg honno mae'n ddiymgeledd iawn. Bydd niferoedd mawr o larfau'n marw oni bai fod y tywydd yn lled oer ac yn llaith yn ystod y cyfnod deor. Bydd y larfau'n prifio'n araf dros y gaeaf, ond byddant tua 40mm ar eu hyd ar ôl y prif gyfnod bwydo yn y gwanwyn. Yn ystod yr haf, bydd y larfau'n chwileru yn y pridd cyn ymddangos fel oedolion.

## Mesurau Rheoli

### Diwylliannol

- Mae diwyllio'n helpu i ddatgelu niferoedd mawr o larfau fel y byddant mewn perygl dysychedu neu fynd yn sglyfaeth i chwilod ac adar. Dylai tir glas neu Set Aside gael ei dorri yn gynnar yn y gwanwyn. Os yw'r cynrhon lledr yn niferus, dylid cadw'r tir yn rhydd o chwyn ac ni ddylid plannu unrhyw gnydau tan ar ôl canol yr haf.
- Bydd gosod darn plastig du neu darpolin mawr dros bridd llaith dros nos yn annog y cynrhon i ddod i'r wyneb. Wedyn, gellir eu casglu a'u gadael i'r adar.

### Bio-reolaeth

- Gellir rheoli cynrhon lledr drwy ddefnyddio nematodau e.e. *Steinernema feltiae*. Dylid eu cyflwyno pan fydd y cynrhon yn ifainc ac yn weithredol (Medi/Hydref)

## Gwybodaeth bellach

### Llyfrau ac erthyglau

- David Frost (2003) Review of pest and weed control in organic systems, *Organic Centre Wales*
- Marion Gratwick, *Crop Pests in the UK – Collected edition of MAFF leaflets*, MAFF / ADAS Published by Chapman & Hall, London 1992

### Gwefannau

- Cyber-Help for Organic Farmers (UDA) <http://www.certifiedorganic.bc.ca/rcbtoa/training/pestmanagement.htm>
- Database of IPM Resources (UDA) <http://ippc.orst.edu/DIR/index.htm>
- Henry Doubleday Research Association <http://www.hdra.org.uk>
- Organic Integrated Pest Management (UDA) [http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic\\_ipm.html](http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic_ipm.html).
- The *Pest Bulletin*, HDC. <http://www2.warwick.ac.uk/fac/sci/hri2/hdcpestbulletin/>;

**Dylid nodi y gall gwefannau o'r UDA ddangos cylchau bywyd, amserau gwaith rheoli ac ati sydd ddim yn addas i Gymru**

---

## Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 6 · Medi 2005

*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*